

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSS(2)-10-06(p10)

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mehefin 2006

Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Y diweddaraf ar brisiectau 'Ysbytai Liw Nos'

Diben

Papur i'w Nodi ar Weithredu Ysbytai Liw Nos yn Ymddiriedolaethau'r GIG ledled Cymru

Crynodeb

Mae 55% o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn dilyn rhyw fath o fodel ar Ysbytai Liw Nos.

Y Cefndir - Ysbytai Liw Nos

Mae model Ysbytai Liw Nos yn cynnig mai'r ffordd i sicrhau gofal clinigol effeithiol liw nos yw cael un tîm aml-ddisgyblaethol neu ragor yn gweithio yn yr ysbyty, a chanddynt rhyngddynt yr holl sgiliau a'r cymwyseddau i ddiwallu anghenion uniongyrchol cleifion.

Deilliodd y prosiect o syniad gwreiddiol gan Dr Elizabeth Paice, Cyfarwyddwr Ddeon Uwchraddedigion i Lundain, a oedd yn pryderu am effeithiau andwyol modelau traddodiadol gwaith liw nos ar gleifion a staff meddygol iau.

Ym mis Awst 2000, crewyd yr amserlen i ymgorffori meddygon iau o fewn darpariaethau'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Mae'r amserlen hon yn golygu bod yn rhaid gostwng oriau gwaith meddygon iau er mwyn cadw at derfyn yr oriau ar gyfer yr wythnos waith. Arweiniodd hyn at waith shifft llawn ac mae wedi bod yn hwb arall i newid arferion gwaith meddygol traddodiadol y tu allan i oriau. Ym mis Rhagfyr 2002, nododd y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorwyr (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Academi'r Colegau Brenhinol a'r BMA) y gallai symud tuag at weithio aml-ddisgyblaethol ar sail cymwyseddau helpu ysbytai i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

Nid yw'r prosiect Ysbytai Liw Nos yn rhan o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ond mae'n un ffordd o fynd i'r afael â'r mater.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ei chefnogaeth lawn i weithredu Ysbytai Liw Nos mewn

Ymddiriedolaethau yng Nghymru ac mae'r Cydgysylltwyr Meddygon Iau yn goruchwyllo'r fenter. Cynigir cefnogaeth i ymddiriedolaethau drwy grwp Rhwydwaith Ysbytai Liw Nos Llywodraeth Cynulliad Cymru (HANNWAG), sy'n cwrdd bob deufis i drafod materion a phroblemau'r ymddiriedolaethau.

Fel rhan o grwp HANNWAG, anogwyd ymddiriedolaethau i ymgymryd â mân-brosiectau peilot. Cymeradwywyd y prosiectau hyn gan y Cydgysylltwyr Meddygon Iau a darparwyd y cyllid. Caiff canfyddiadau'r mân-brosiectau peilot eu bwydo'n ôl i grwp HANNWAG a'u cyflwyno ar ffurf poster yng Nghynhadledd arfaethedig Ysbytai Liw Nos Cymru Gyfan ar 8 Mehefin yn ogystal â'u rhoi ar wefan Ysbytai Liw Nos.

Ym mis Mawrth 2006, cytunwyd bod angen adborth ffurfiol bob chwarter ar sut hwyl roedd ymddiriedolaethau yn ei gael gydag Ysbytai Liw Nos. Mae'r adroddiad chwarterol cyntaf yn dangos bod 55% o ymddiriedolaethau wedi datblygu a gweithredu model Ysbytai Liw Nos. Mae'r mwyafrif o ymddiriedolaethau yn cymryd camau i ddatblygu egwyddorion Ysbytai Liw Nos, gyda rhai'n teimlo'i bod yn fwy priodol gweithredu newidiadau fesul cam yn hytrach na gwneud y cyfan ar unwaith. Mae'r cydgysylltwyr meddygon iau yn bwriadu parhau i gymryd camau i fonitro i ba raddau y gweithredir Ysbytai Liw Nos yng Ngymru a bydd yn cynnig cymorth i ymddiriedolaethau yn ôl yr angen.

Dr Brian Gibbons AC

Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyswllt: Linda Ware, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, tel 029 2082 3394